

Safonau'r Gymraeg

Rhoi Safonau'r Gymraeg ar waith yn Nhîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Cyflwyniad

O 30 Mawrth 2017 roedd yn rhaid i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru a'i dîm gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a osodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn hysbysiad cydymffurfio cyfreithiol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu sydd ar gael ar ei gwefan.

Rydym yn croesawu ysbryd y Safonau a'r cyfleoedd y maent yn eu cynnig o ran galluogi pobl De Cymru i ddefnyddio eu dewis iaith pan fyddant yn cysylltu â ni. Rydym yn ymrwymedig i fodloni gofynion ein Safonau ac rydym wedi gwneud nifer o newidiadau i'r ffordd rydym yn gweithio er mwyn gallu gwneud hynny.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r prosesau sydd ar waith ym mhob rhan o dîm y Comisiynydd i hyrwyddo ein cydymffurfiaeth â'r Safonau.

Trosolwg Mewnol

Rydym wedi sefydlu Gweithgor Cymraeg, sydd wedi'i gadeirio gan yr Arweinydd Polisi ar gyfer Cydraddoldeb a Chymunedau. Mae'r Grŵp hwn wedi datblygu prosesau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau ac yn gyfrifol am y gwaith o fonitro a goruchwyllo ein cydymffurfiaeth a'n cynnydd yn barhaus. Rhaid i aelodau'r grŵp hefyd weithredu fel 'Hyrwyddwyr' ar gyfer y Gymraeg a chwarae rhan yn y gwaith o godi ymwybyddiaeth o'r Safonau ym mhob rhan o'r tîm.

Yn ogystal â hyn, rydym wedi ein cynrychioli ar ' Fwrdd Strategol y Gymraeg Heddlu De Cymru' er mwyn sicrhau ein bod yn cydweithio â Heddlu De Cymru gymaint â phosibl i hyrwyddo cynwysoldeb iaith.

Mae pob aelod o staff Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi mynychu sesiynau ymwybyddiaeth o Safonau'r Gymraeg ac wedi cael dogfen ganllaw i'w helpu gyda'u dyletswyddau unigol o ran y Gymraeg.

Safonau Darparu Gwasanaethau

Ein nod yw cyrraedd ein safonau 'Darparu Gwasanaethau' drwy nifer o fesurau, gan gynnwys y canlynol:

- Cynnwys troednodiadau ar waelod pob e-bost a llythyr yn egluro ein bod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.
- Bydd siaradwyr Cymraeg yn nodi eu gallu i siarad Cymraeg ar droednodiadau e-bost.
- Bydd llofnodion e-bost, negeseuon e-bost 'allan o'r swyddfa' a negeseuon peiriannau ateb i bob rhif llinell dir yn ddwyieithog.

- Caiff y sawl sy'n cysylltu â thîm y Comisiynydd gyfarchiad dwyieithog. Yna, cânt gymorth yn Gymraeg nes cyrraedd pwynt lle nad yw'n bosibl mwyach gan nad oes siaradwyr Cymraeg ar gael neu am fod angen siarad ag arbenigwr ar bwnc nad yw'n gallu siarad Cymraeg. Caiff pob galwr Cymraeg ei drin â chwarteisi a pharch a byddwn yn gwneud popeth a allwn i ddarparu gwasanaeth cadarnhaol.
- Pan fyddwn yn cysylltu â phobl am y tro cyntaf ac nad ydym yn ymwybod o'u dewis iaith, byddwn yn gofyn iddynt a hoffent gyfathrebu â ni yn Gymraeg. Mae hwn yn berthnasol i gyswllt dros e-bost, drwy lythyr a thros y ffôn oni bai bod y person hwnnw eisoes wedi derbyn cyswllt yn Saesneg neu am fod ei ddewis iaith eisoes yn hysbys.
- Byddwn yn cofnodi manylion y rheini sy'n rhoi gwybod i ni y byddant am gyfathrebu â ni yn Gymraeg.
- Bydd pob cyfarfod, digwyddiad a chynhadledd gyhoeddus yn cynnig cyfle i sgwrsio yn Gymraeg. Bydd gofyn i unigolion roi gwybod i ni os hoffent gyfathrebu yn Gymraeg erbyn dyddiad penodol er mwyn i ni allu trefnu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd yn briodol.
- Bydd unrhyw arwyddion newydd a osodir yn swyddfa'r tîm yn ddwyieithog.
- Bydd unrhyw ddogfennau defnydd safonol a ddefnyddir o fewn y tîm yn ddwyieithog.
- Bydd ein gwefan yn ddwyieithog. Darperir pob dogfen 'atodiad' a gaiff ei lanlwytho i'r wefan o fis Ebrill 2017 yn Gymraeg a Saesneg.
- Bydd trydariadau o gyfrif Twitter y Comisiynydd (@commissionersw) yn ddwyieithog. Caiff unrhyw sylwadau y mae angen ymateb iddynt, eu hateb yn Gymraeg yn ystod oriau swyddfa (fel y gwneir ar gyfer sylwadau Saesneg).
- Bob tro y dyfernir grantiau neu gontractau â chyllid y Comisiynydd, caiff y broses ei chynnig yn ddwyieithog. Caiff y gallu i hyrwyddo'r Gymraeg ei ystyried gymaint â phosibl yn y broses ddyfarnu.

Safonau Llundio Polisi

Ein nod yw cyrraedd ein safonau 'Llundio Polisi' drwy nifer o fesurau, gan gynnwys y canlynol:

- Pan gaiff polisiâu neu brosiectau eu sefydlu neu eu hadolygu a phan fyddant destun proses 'Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb' (EIA), bydd hyn yn cynnwys asesiad o oblygiadau o ran y Gymraeg, gan gynnwys cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg.
- Bydd ymgynghoriadau neu ymchwil yn achub ar gyfleoedd i wahodd sylwadau ar sut y gallem hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Safonau Gweithredol

Ein nod yw cyrraedd ein safonau 'Gweithredol' drwy nifer o fesurau, gan gynnwys y canlynol:

- Bydd aelodau o staff sy'n awyddus i gael dogfennau Adnoddau Dynol yn Gymraeg neu gynnal prosesau Adnoddau Dynol yn Gymraeg yn gallu gwneud hynny.
- Pan fyddwn yn hysbysebu ar gyfer unrhyw swydd newydd, byddwn yn ymgymryd â phroses o asesu'r sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar gyfer y swydd.

- Caiff prosesau recriwtio dwyieithog eu cynnig.
- Caiff pob aelod o staff newydd sy'n ymuno â thîm y Comisiynydd i friffio ar ofynion a phrosesau Safonau'r Gymraeg yn ystod y cyfnod sefydlu.
- Er mwyn annog y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, cynhelir sesiynau 'Siop Siarad' anffurfiol ar gyfer unrhyw gyflogeion sy'n awyddus i'w mynychu, p'un a ydynt yn siaradwyr Cymraeg neu beidio.
- Gellir cynnig hyfforddiant yn y Gymraeg fel rhan o ymrwymadau cyffredinol Dysgu a Datblygu y Tîm, a hynny ar y cyd â Heddlu De Cymru.
- Bydd arwyddion yn y gweithle yn ddwyieithog.

Safonau Cadw Cofnodion

Ein nod yw cyrraedd ein safonau 'Cadw Cofnodion' drwy nifer o fesurau, gan gynnwys y canlynol:

- Byddwn yn cadw'r holl wybodaeth ofynnol yn ein hysbysiad cydymffurfio. Er enghraifft, bydd cofnodion yn cynnwys nifer y cwynion a wnaed mewn perthynas â chydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg neu faterion Cymraeg eraill, nifer yr aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg, nifer y swyddi gwag a hysbysebiri a gafodd eu hasesu ar gyfer gofynion sgiliau Cymraeg a chanlyniadau'r asesiad, a nifer y cyrsiau hyfforddi y mae aelodau o staff wedi'u mynychu yn Gymraeg.
- Bydd y broses cadw cofnodion hefyd yn cynnwys storio gwybodaeth am gamau rydym wedi'u cymryd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

Cwynion

Rydym wedi sefydlu polisi ar gyfer delio ag unrhyw gwynion sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg a gellir dod o hyd i hwn ar ein gwefan.

Casgliad

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod cynwysoldeb iaith yn dod yn rhan arferol o'n busnes o ddydd i ddydd yn nhîm y Comisiynydd.

Byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol i nodi diweddariadau yn erbyn y Safonau, gan gynnwys gwybodaeth am ofynion penodol o ran cadw cofnodion. Bydd hwn ar gael ar ein gwefan. Cyhoeddir yr adroddiad cyntaf ym mis Awst 2018.